**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Mark Drakeford AC
Y Prif Weinidog

30 Gorffennaf 2019

Annwyl Mark

**Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Hawliau Bridwyr Planhigion a Hadau (Diwygio ac ati) Rheoliadau (Ymadael â'r UE) 2019**

Gwnaethom drafod y memorandwm cydsyniad offeryn statudol (SICM) mewn perthynas â'r rheoliadau uchod yn ein cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2019.

Yn ei llythyr ar 4 Gorffennaf 2019 atom ynglŷn â'r SICM, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig na fyddai'n ceisio cyflwyno cynnig cydsyniad offeryn statudol (cynnig) i drafod y rheoliadau o ystyried maint y ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wrthi'n eu hystyried.

Am yr un rhesymau ag a nodwyd yn ein llythyr atoch ar 12 Gorffennaf 2019 ynghylch Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019, ein safbwynt ni yw y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynnig am ddadl ar gyfer pob SICM y mae'n ei osod gerbron y Cynulliad.

Gyda hyn mewn golwg, hoffem dynnu eich sylw at ein hymchwiliad newydd yn ymwneud â chyfansoddiad Cymru, a lansiwyd gennym ddoe. Bydd yn trafod materion sy'n ymwneud â chydsyniad deddfwriaethol yn gyffredinol ac felly gall gynnwys ystyried y broses SICM yn fwy manwl.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.